Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Adolygiad o Gadernid Sioeau Amaethyddol yng Nghymru**
**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Argymhellion**

| | ARGYMHELLIAD | Canlyniad | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| 1. | Ystyried a ddylid cynnig cymorth ariannol i CAFC er mwyn helpu'r Gymdeithas drwy'r cyfnod anodd a digynsail hwn. | Yn gryfach yn ariannol. Y gallu i barhau i baratoi ar gyfer y dyfodol, gan helpu pobl eraill i ymdopi â'r sefyllfa bresennol (h.y. rhith sioeau) | **CWBLHAWYD**<br>Ym mis Tachwedd 2020, dyfarnwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (CAFC).<br><br>Bydd y cyllid yn gwella'r effaith amgylcheddol a gaiff gweithgareddau'r Gymdeithas ac yn ei helpu i fod yn fwy cydnerth drwy dalu rhai o'r costau y bydd yn eu hysgwyddo. Bydd y cyllid o gymorth hefyd iddi fedru ailgyflwyno digwyddiadau yn y dyfodol. |
| 2. | Ymchwilio i'r posibilrwydd o roi cymorth ariannol er mwyn sicrhau bod sioeau sirol yn goresi (yn enwedig y rhai sydd â meysydd parhaol). | Yn gryfach yn ariannol. Y gallu i baratoi ar gyfer y dyfodol. | **CWBLHAWYD**<br>Ym mis Mawrth 2021, dyfarnwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i Gymdeithasau Amaethyddol Sir Benfro, Ynys Môn a Sir Ddinbych a Sir y Fflint.<br><br>Bydd y cyllid o gymorth i'r Cymdeithasau fod yn fwy cydnerth yn y dyfodol ar ôl i'r pandemig Covid-19 ddod i ben. |
| 3. | Paratoi a rhannu canllawiau ymhlith trefnwyr sioeau yn nodi'r trefniadau ar gyfer cynnal digwyddiadau yn 2021 yn unol ag unrhyw fesurau neu gyfyngiadau iechyd cyhoeddus sydd ar waith. | Cynyddu gallu'r Cymdeithasau i gynllunio a chynnal sioeau sy'n cydymffurfio â'r rheolau yn y dyfodol. | **CWBLHAWYD**<br>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar COVID-19 ar gyfer trefnwyr digwyddiadau a reoleiddir yn ystod pandemig Covid-19, ym mis Mehefin 2021. Cafodd yr wybodaeth honno ei dosbarthu i holl sioeau Cymru gan gynrychiolydd Cymru ar Gymdeithas y Sioeau a Sefydliadau Amaethyddol (ASAO). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4. | Ystyried sefydlu 'Cronfa Arloesi' lle gallai sioeau o bob maint gynnig syniadau ar gyfer cymorth. Dyma gyfle i arloesi a gallai cronfa helpu cymdeithasau i arbrofi gyda syniadau newydd, cynnal rhith gystadlaethau neu chwilio am ffyrdd o wella eu hôl troed carbon, er enghraifft. | Gwell effeithlonrwydd a chydnerthedd a mwy o ddiddordeb yng Nghymdeithasau'r Sioeau. | **CWBLHAWYD**<br>Dyfarnwyd £25,000 ym mis Mawrth 2021 i gronfa newydd, sef y Gronfa Arloesi Sioeau Amaethyddol, sy'n cael ei gweinyddu gan CFAC. Agorodd y cyfnod ymgeisio ar gyfer y gronfa ddydd Gwener 18 Mehefin a daeth i ben ar 16 Gorffennaf 2021. Bydd y gronfa'n galluogi sioeau o bob maint i gynnig gwell profiad i gystadleuwyr a bydd hefyd yn eu helpu gyda pharatoadau i ailgyflwyno'r sioeau. |
| 5. | Annog mwy o gydweithredu rhwng sioeau a chydweithio ag ASAO er mwyn cefnogi'r uchelgais hon, gan bwyso arnynt i gynnal digwyddiadau (rhai rhith neu fel arall) i gefnogi'r diwydiant wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi. | Gwell cyfathrebu a rhannu arferion gorau, a fydd yn gwneud y sioeau'n fwy cadarn ac effeithlon ac yn arwain at brofiadau gwell. | **CWBLHAWYD**<br>Mae Cymdeithas y Sioeau a Sefydliadau Amaethyddol (ASAO), y sioeau amaethyddol, a Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu â'i gilydd yn rheolaidd.<br><br>Cafodd Pennaeth Gweithrediadau CFAC ei benodi'n ddiweddar yn Aelod o Gyngor ASAO dros Gymru ac mae hynny wedi cryfhau'r cysylltiad rhwng CFAC ac ASAO. |
| 6. | Gweithio ochr yn ochr â Croeso Cymru er mwyn sefydlu sut gellir hyrwyddo'r ffaith bod sioeau amaethyddol yn dychwelyd yn 2021. Gellir gwneud hyn gan ddilyn thema 2021 – "Blwyddyn yr Awyr Agored". | Annog mwy o bobl i fynd i sioeau amaethyddol yn y dyfodol. | **CWBLHAWYD**<br>Mae ASAO yn gweithio gyda Croeso Cymru i hyrwyddo sioeau amaethyddol yng Nghymru drwy ei sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy ddulliau cyfathrebu eraill. Bydd hynny'n parhau yn 2022 pan fydd sioeau amaethyddol yn dychwelyd yn llawn (ar yr amod y bydd cyfyngiadau Covid-19 yn caniatáu hynny). |
| 7. | Ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno rhywfaint o hyfforddiant strwythuredig, gan gynnig Datblygiad Proffesiynol Parhaus wedi'i achredu neu gymwysterau ffurfiol i unigolion sy'n gweithio yn niwydiant y sioeau. Yn ychwanegol, a allai gwirfoddoli gyda phwyllgor sioe gael ei gydnabod mewn rhyw ffordd mewn cynlluniau cymorth amaethyddol presennol neu yn y dyfodol? | Cysondeb o ran sut y mae Cymdeithasau Sioeau yn gweithredu a rhoi cydnabyddiaeth ffurfiol i sgiliau trefnwyr sioeau. | **CWBLHAWYD**<br>Mae pecyn hyfforddi newydd yn cael ei ddatblygu gan Lantra ar gyfer staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y sector digwyddiadau. Bydd y cwrs, a fydd ar gael o fis Medi 2021 ymlaen, yn cynnwys amrywiaeth o fodiwlau perthnasol, gan gynnwys rheoli safleoedd, marchnata, bioddiogelwch, cyllid, ac iechyd a diogelwch. Bydd cyllid ar gael i 100 o unigolion sy'n gweithio yn y sector digwyddiadau amaethyddol er mwyn iddynt fedru cwblhau'r cwrs yn rhad ac am ddim. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Yn y Papur Gwyn ar Amaethyddiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar, cynigiodd Llywodraeth Cymru y byddai cymorth yn y dyfodol yn darparu cyngor, hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Mae DPP yn cyfleu i'r gymuned ehangach fod y proffesiwn hwn yn un sydd wedi ymrwymo i ddarparu cynhyrchion o safon, i sicrhau diogelwch bwyd, iechyd a lles anifeiliaid a defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol. |